Adroddiad ar gyfer

# Amlwch Pre-School Playgroup

Ystafell Eleth
Neuadd Goffa
Amlwch
LL68 9ET

Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2026

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

ac

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Amlwch Pre-School Playgroup

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Amlwch Pre-School Playgroup |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Amlwch Pre-School Playgroup |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n gymwys) | Gwag ar adeg yr arolygiad |
| Person â chyfrifoldeb | Helen Smith a Louise Coe |
| Nifer y lleoedd | 24 |
| Ystod oedran y plant | 2 – 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 oed | 9 |
| Nifer y plant sy'n cael cyllid ar gyfer addysg gynnar | 9 |
| Diwrnodau / amseroedd gweithredu | 9.00 – 11.30 o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y tymor yn unig |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydy |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad hwn yn darparu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg | Mae'r gwasanaeth hwn yn gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru neu'n gweithio tuag at fod yn wasanaeth dwyieithog. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 19/09/2023 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Dd/G |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 02/07/2026 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Llesiant a Gofal** | **Da** |
| **Addysgu, Dysgu a Datblygu** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

## Achosion o ddiffyg cydymffurfio

Gwnaethom hysbysu'r darparwr nad oedd y lleoliad yn cydymffurfio â'r Rheoliadau. Ni chyflwynwyd hysbysiad ond nodir bod yr agweddau hyn yn feysydd i'w gwella a bod yn rhaid i'r Person Cofrestredig/Unigolyn Cyfrifol fynd i'r afael â nhw.

## Argymhellion

A1 Cryfhau profiadau cynllunio a dysgu i sicrhau eu bod yn meithrin sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth y plant yn effeithiol ar draws y cwricwlwm.

A2 Cryfhau gwybodaeth y staff i sicrhau eu bod yn deall y gweithdrefnau diogelu i'w dilyn yn llawn.

A3 Cryfhau trefniadau arwain a hunanwerthuso i sicrhau prosesau goruchwylio effeithiol a gwelliant parhaus.

A4 Ymdrin â'r meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut mae'n bwriadu ymdrin â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Llesiant a Gofal: Da

Mae ymarferwyr yn creu amgylchedd cynnes a chroesawgar ac yn cyfarch y plant yn llawn brwdfrydedd wrth gyrraedd, gan eu helpu i setlo'n gyflym a ffarwelio â'u rhieni neu eu gofalwyr yn hyderus. Mae bron pob plentyn yn gwybod y gall fynd at y staff i gael cysur, sicrwydd neu gymorth gan wybod bod yr ymarferwyr yn ofalgar, yn hawdd mynd atynt ac yn ymatebol i'w anghenion. Mae hyn yn helpu'r plant i deimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn hyderus, a theimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn y lleoliad. Maent yn symud yn rhydd o gwmpas yr amgylchedd ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn gyfforddus.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mynegi eu barn yn hyderus. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i wneud dewisiadau a chyfleu eu hanghenion yn dda, fel gofyn am adnoddau, mwy o fyrbrydau, neu ofyn am gymorth yn ystod gweithgareddau. Mae'r ymarferwyr yn ymateb i ddiddordebau'r plant yn addas yn ystod profiadau chwarae gan eu helpu i deimlo eu bod yn cael eu parchu a'u cynnwys yn eu profiadau dysgu. Maent yn defnyddio diddordebau sy'n dod i'r amlwg ymysg y plant yn briodol i hyrwyddo eu datblygiad a'u hymgysylltiad. Er enghraifft, wrth ddod o hyd i gorryn yn y gornel gartref, gwnaethant achub ar y cyfle i ymestyn dysgu'r plant drwy siarad am ei nodweddion a'i symudiadau.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol ag eraill ac yn gwneud ffrindiau drwy chwarae a gwneud gweithgareddau gyda'i gilydd. Er enghraifft, maent yn mwynhau creu lluniau gyda'i gilydd a gwylio eu ffrindiau yn reidio beiciau i lawr bryn yn yr awyr agored. Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo rhyngweithiadau cadarnhaol drwy fodelu ymddygiadau cadarnhaol, gan annog y plant i rannu a'u helpu i ddeall anghenion eraill. O ganlyniad, mae'r plant yn dechrau dangos ystyriaeth i eraill, cydweithredu â'u cyfoedion a meithrin sgiliau cymdeithasol sy'n briodol i'w hoedran a'u cam datblygiad. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn meithrin cydberthnasau cryf a llawn ymddiriedaeth â'r ymarferwyr ac yn mynd atynt yn hyderus i gael cymorth, cysur a chwmnïaeth. Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol drwy roi canmoliaeth, arweiniad ac esboniadau clir, gan helpu'r plant i ddeall disgwyliadau a gwneud dewisiadau priodol. Maent yn ymyrryd yn effeithiol er mwyn atal ymddygiad digroeso rhag gwaethygu ac yn helpu'r plant i reoli eu hemosiynau yn llwyddiannus.

Mae bron pob plentyn yn cael budd o ofal cyson a ddarperir gan ymarferwyr sy'n eu hadnabod yn dda. Mae arferion cyson yn helpu'r plant i ddeall beth sy'n digwydd drwy gydol y dydd, gan gynnig sicrwydd, hyrwyddo annibyniaeth a chefnogi eu llesiant cyffredinol yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn deall anghenion, diddordebau a dewisiadau unigol y plant yn dda. Mae hyn yn eu galluogi i roi cymorth wedi'i deilwra i'r rheini sydd ei angen. Maent yn meithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â'r plant, sy'n helpu iddynt

deimlo'n hyderus a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod gweithgareddau a phrofiadau ar gael i bawb. Maent yn gweithio'n agos gyda'r rhieni ac asiantaethau allanol lle bo angen i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion pob plentyn, gan gynnwys y rheini ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

## Addysgu, Dysgu a Datblygu: Da

Mae'r ymarferwyr yn creu amgylchedd dysgu tawel, cynhwysol ac ysgogol lle mae'r plant yn setlo'n gyflym, yn teimlo'n ddiogel ac yn ymgymryd â'u chwarae a'u dysgu mewn modd pwrpasol. Maent yn trefnu amrywiaeth addas o adnoddau o ansawdd da mewn modd ystyriol, dan do ac yn yr awyr agored, gan sicrhau bod llawer o'r plant yn gallu eu defnyddio'n annibynnol, yn gwneud dewisiadau pwrpasol ac yn datblygu annibyniaeth.

Mae'r ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth briodol o ddatblygiad plant ac egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru. Maent yn cynnig amrywiaeth addas o brofiadau gwerthfawr sy'n cefnogi datblygiad cyffredinol y plant drwy brofiadau uniongyrchol a chyfnodau estynedig o chwarae heb unrhyw darfu arnynt, sy'n eu galluogi i ymroi'n llwyr i'w dysgu. Ar y cyfan, mae'r ymarferwyr yn ymateb i ddiddordebau sy'n dod i'r amlwg ymysg y plant yn addas ac yn addasu profiadau dysgu er mwyn ymestyn eu dysgu yn dda. Er enghraifft, gan ddilyn diddordeb y plant mewn deinosoriaid, gwnaethant gyflwyno gweithgaredd golchi deinosor a oedd yn annog y plant i drafod ac ymchwilio drwy chwarae pwrpasol. Mae trefniadau asesu yn barhaus ac yn ystyrlon. Mae'r ymarferwyr yn arsylwi ar ddysgu'r plant ac yn ei gofnodi'n briodol, gan eu galluogi i nodi eu cyflawniadau. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferwyr bob amser yn ddigon clir ynghylch sut y gellir defnyddio'r profiadau hyn i adeiladu'n bwrpasol ar wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth bresennol y plant ar draws pob maes o'r cwricwlwm.

Mae'r ymarferwyr yn modelu iaith yn dda ac yn defnyddio dulliau holi yn addas i ymestyn sgiliau meddwl a chyfathrebu'r plant. Ar y cyfan, mae'r ymarferwyr yn defnyddio dulliau holi yn dda i herio a chefnogi dysgu'r plant wrth iddynt chwarae. Mae llawer o'r plant yn cyfathrebu drwy ddefnyddio geirfa sy'n briodol i'w cam datblygu ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn caneuon a sgyrsiau. Maent yn frwdfrydig wrth ymgysylltu â llyfrau, gan wrando'n astud ar straeon a thrin llyfrau yn briodol ac maent yn mwynhau eu rhannu â'u ffrindiau. O ganlyniad, maent yn datblygu dealltwriaeth addas bod testunau a lluniau yn cyfleu ystyr. Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo'r Gymraeg yn naturiol drwy gydol y drefn o ddydd i ddydd. Wrth i'r plant chwarae, mae llawer ohonynt yn dechrau deall a defnyddio cyfarchion cyfarwydd ac ymadroddion syml ac yn mwynhau canu caneuon cyfarwydd. Mae dathliadau fel Dydd Gŵyl Dewi yn helpu'r plant i ddatblygu dealltwriaeth addas o'u hunaniaeth Gymreig a diwylliant Cymru.

Mae profiadau uniongyrchol pwrpasol yn cefnogi datblygiad y plant ar draws amrywiaeth briodol o sgiliau. Mae llawer o'r plant yn frwdfrydig wrth wneud marciau ar draws

amrywiaeth o gyd-destunau ac yn defnyddio sgiliau mathemateg cynnar yn briodol wrth gyfrif, paru ac archwilio capasiti yn ystod chwarae. Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd addas i'r plant ddechrau datblygu eu sgiliau digidol drwy chwarae rôl yn bwrpasol.

Mae'r ymarferwyr yn darparu amrywiaeth addas o brofiadau corfforol pwrpasol sy'n datblygu hyder, cydsymud a chydbwysedd yn dda ar gyfer y rhan fwyaf o'r plant. Mae cyfleoedd rheolaidd i lawer o blant ymgymryd â cherddoriaeth a chelf yn meithrin eu dychymyg a'u hunanfynegiant yn effeithiol, ac mae gweithgareddau ymarferol fel posau a gemau pysgota magnetig yn annog dyfalbarhad ac yn datblygu sgiliau datrys problemau addas.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn dda drwy brofiadau ystyrlon a dilys. Maent yn cyfoethogi dysgu'r plant drwy brofiadau uniongyrchol gwerthfawr sy'n hyrwyddo eu chwilfrydedd a'u hymdeimlad o syfrdandod a rhyfeddod am y byd naturiol. Er enghraifft, yn ystod 'Wythnos Garddio', mae'r plant yn arsylwi ar gylch oes penbyliaid, yn tyfu blodau a llysiau ac yn gofalu amdanynt. Mae'r profiadau hyn yn eu hannog i ragweld a rhannu eu harsylwadau. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau dilys sy'n helpu'r plant i ddysgu am ddathliadau a gwyliau mewn amrywiaeth o ddiwylliannau. Er enghraifft, mae'r plant yn dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd drwy ymweld â bwyty Tsieineaidd lleol, blasu bwyd traddodiadol a chreu llusernau papur. Mae llyfrau amlddiwylliannol a ffigyrau byd bach sydd wedi'u dewis yn ofalus yn ehangu dealltwriaeth y plant o wahanol ddiwylliannau, anableddau a chymunedau. At hynny, mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r plant fyfyrio ar garedigrwydd, parch a gofal at eraill drwy weithgareddau fel Dydd y Cofio, gan helpu'r plant i ddatblygu empathi ac ystyriaeth tuag at eraill.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth: Digonol

Yn ystod cyfnod o ansicrwydd yn arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad, mae'r arweinydd wedi cynnal gweledigaeth glir i'r plant a'r staff a'i ddyfodol.

Mae'r arweinwyr yn gweithio'n effeithiol â'r ymarferwyr i hyrwyddo ethos cadarnhaol sy'n cefnogi llesiant a dysgu'r plant.

Mae datganiad o ddiben y lleoliad yn cynnig adlewyrchiad digon manwl a chywir o'r lleoliad a'r gofal y mae'n ei ddarparu. Mae'r arweinwyr yn dilyn y gweithdrefnau recriwtio priodol ar y cyfan ac yn cwblhau'r gwiriadau angenrheidiol cyn cyflogi staff, sy'n helpu i sicrhau eu bod yn addas i ofalu am blant. Fodd bynnag, ni chaiff yr holl wybodaeth ei chasglu mewn modd amserol, ond mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn addas i ofalu am blant.

Ceir rhai trefniadau addas ar gyfer sesiynau goruchwylio, arfarniadau a chyfarfodydd staff, ond nid yw'r rhain yn ddigon rheolaidd na systematig. O ganlyniad, nid yw'r arweinwyr yn

cyfleu gwybodaeth bwysig yn gyson nac yn nodi anghenion dysgu proffesiynol yr ymarferwyr a mynd i'r afael â nhw mewn modd effeithiol. Mae gan yr arweinwyr bolisi diogelu addas ar waith; fodd bynnag, nid oes gan leiafrif o'r staff wybodaeth gadarn am y gweithdrefnau diogelu.

Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n agos gydag asiantaethau allanol, gan alluogi'r plant i gael cymorth amserol sy'n hyrwyddo eu dysgu, eu datblygiad a'u llesiant. Maent yn cael cyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol mewn modd cadarnhaol, gan gynnwys hyfforddiant ar ADY a rhaglen gyfathrebu sy'n cyfuno lleferydd, arwyddion a symbolau. Mae hyn yn cryfhau'r ffordd y mae'r ymarferwyr yn cefnogi cyfathrebu a datblygiad iaith y plant ac yn eu helpu i wella'r amgylchedd dysgu.

Mae'r arweinydd yn gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth yn addas ac yn nodi blaenoriaethau priodol ar gyfer gwella. Mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd buddiol o gyngor gan yr awdurdod lleol a gweithwyr proffesiynol allanol eraill i lywio hunanwerthusiadau a nodi blaenoriaethau, gan gynnwys datblygu sgiliau digidol y plant a gwella'r amgylchedd dysgu. Mae'r arweinwyr yn nodi meysydd priodol i'w datblygu; fodd bynnag, nid oedd y trefniadau ar gyfer monitro a chyfleu cynnydd yn ddigon effeithiol. Mae absenoldeb unigolyn cyfrifol yn golygu nad oes unrhyw drefniadau goruchwylio priodol na chyfraniad at drefniadau hunanwerthuso'r lleoliad i sicrhau bod y cynlluniau gwella yn gyson cadarn. O ganlyniad, nid oedd yr ymarferwyr yn gweithio'n gyson tuag at flaenoriaethau gwella a rennir ym mhob rhan o'r lleoliad.

Mae'r arweinydd yn gwneud defnydd effeithiol ac amserol o'r cyllid sydd ar gael i wella ansawdd adnoddau a gwella'r amgylcheddau dysgu dan do ac awyr agored. O ganlyniad, mae'r plant yn cael amrywiaeth ehangach o brofiadau dysgu gwerthfawr. Er enghraifft, mae gwaith ailddatblygu diweddar yn yr ardal awyr agored wedi cynnig lle croesawgar a deniadol i'r plant chwarae a dysgu.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn cynnal amgylchedd diogel drwy gwblhau a diweddaru asesiadau risg yn rheolaidd ar gyfer yr ardaloedd a'r mannau dan do ac awyr agored y mae'r plant yn ymweld â nhw yn rheolaidd. Maent yn cynnal gwiriadau dyddiol i nodi unrhyw beryglon newydd a mynd i'r afael â nhw, sy'n helpu i gadw'r plant yn ddiogel. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn cadw'r amgylchedd yn lân, yn groesawgar ac mewn cyflwr da, gan sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y plant sy'n mynychu. Maent yn cynnig digon o le dan do ac yn yr awyr agored, sy'n galluogi'r plant i chwarae, dysgu a bod yn egnïol yn gorfforol. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn trefnu teganau ac adnoddau fel y gall y plant gael gafael arnynt yn annibynnol a'u defnyddio. Maent yn darparu adnoddau sy'n hyrwyddo amrywiaeth a diwylliannau gwahanol, gan helpu'r plant i ddatblygu dealltwriaeth o wahaniaethau a chynhwysiant. Mae'r arweinwyr yn cynnig amrywiaeth o ddeunyddiau naturiol i gefnogi'r plant i chwarae a dysgu. Fodd bynnag, mae diffyg argaeledd adnoddau dilys a phenagored fel offer bywyd go iawn ac eitemau bob dydd yn

lleihau cyfleoedd i'r plant ymchwilio, datrys problemau ac ymestyn eu chwarae yn annibynnol. O ganlyniad, nid yw'r plant yn ymgymryd â chwarae archwiliadol parhaus yn gyson nac yn datblygu eu sgiliau dysgu annibynnol cymaint ag y gallent.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn meithrin partneriaethau effeithiol â'r rhieni a'r gofalwyr, gan wneud cysylltiadau pwrpasol i gyfoethogi dysgu'r plant. Er enghraifft, daethpwyd â chrwban i'r lleoliad, gan roi profiad uniongyrchol gwerthfawr i'r plant arsylwi ar ei symudiadau a dysgu am ei nodweddion.

Mae trefniadau cyfathrebu rheolaidd yn sicrhau bod y rhieni yn cael digon o wybodaeth am brofiadau a chynnydd eu plant, ac maent yn gwerthfawrogi'r gofal a'r addysg y mae'r lleoliad yn eu darparu.

Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd pwrpasol o'r gymuned leol i gyfoethogi dysgu'r plant. Mae ymweliadau â chyfleusterau lleol, fel y llyfrgell a'r archfarchnad, yn cynnig profiadau uniongyrchol dilys sy'n ehangu dealltwriaeth y plant o'r byd o'u cwmpas ac yn cryfhau eu hymdeimlad o berthyn. Mae cysylltiadau buddiol â'r ysgol leol yn cefnogi'r plant i bontio'n ddidrafferth i gam nesaf eu haddysg.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac ar wefannau AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa pedwar pwynt:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac ymarfer parhaus cryf iawn |
| **Da** | Llawer o gryfderau, heb unrhyw feysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae'r cryfderau yn gwrthbwyso'r gwendidau ond mae angen gwneud gwelliannau |
| **Gwael** | Mae gwendidau pwysig yn gwrthbwyso'r cryfderau ac mae angen gwneud gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (o'r Saesneg i'r Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn am ddim: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant os bydd yr adroddiad hwn yn berthnasol mewn unrhyw iaith, ym mhob achos dan yr amod y caiff ei ailddefnyddio a/neu ei gyfieithu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd, ym mhob achos (gan gynnwys mewn achos o gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a nodi teitl yr adroddiad.

Dyddiad cyhoeddi: 04/09/2026